



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Pentrecelyn
Pentrecelyn
Rhuthun
Sir Ddinbych
LL15 2HG**

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2014

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/01/2015

Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Gymunedol Pentrecelyn, a gynhelir gan awdurdod lleol Dinbych, rhyw bedair milltir i'r de o dref Rhuthun. Mae'n ysgol cyfrwng Cymraeg sy'n gwasanaethu'r gymuned amaethyddol o gwmpas pentref Pentrecelyn.

Ar hyn o bryd, mae 35 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol o oedran derbyn i flwyddyn 6. Derbynnir plant i'r dosbarth meithrin yn y boreau yn unig yn y tymor llawn nesaf yn dilyn eu pen blwydd yn dair oed. Ar hyn o bryd, mae 12 plentyn yn mynychu'r dosbarth meithrin yn rhan amser.

Ychydig iawn o ddisgyblion sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru. Mae 64% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg.

Mae 14% o'r disgyblion wedi eu hadnabod fel rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 22%. Nid oes gan yr un disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Nid oes un plentyn yn yr ysgol o gefndir lleiafrifol ethnig.

Caiff y disgyblion eu haddysgu mewn dau ddosbarth. Yn ogystal â'r pennaeth sydd yn gweithio am dri diwrnod a hanner yr wythnos, mae dwy athrawes amser llawn ac un athrawes sy'n gweithio ddiwrnod yr wythnos. Penodwyd y pennaeth gweithredol i'w swydd ym Medi 2014. Cyn hynny, bu'r ysgol dan arweiniad pennaeth dros dro am dair blynedd. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn Hydref 2008.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Pentrecelyn yn 2014-2015 yw £5,364. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Ddinbych yw £9,103 a'r lleiafswm yw £2,902. Mae Ysgol Gynradd Pentrecelyn yn y 12fed safle o'r 47 ysgol gynradd yn Sir Ddinbych o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Digonol
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae'r perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, y disgyblion bron i gyd yn cydweithio'n hwylus mewn grwpiau bach neu fesul pâr, ac yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol effeithiol.
- medrau llafar Cymraeg y disgyblion bron i gyd yn datblygu'n gadarn iawn;
- disgyblion yr ysgol bron i gyd yn ymfalchïo yn eu Cymreictod ac yn cymryd rhan frwdfrydig mewn gweithgareddau diwylliannol a chymunedol; a
- bod cynlluniau gwaith yn sicrhau gweithgareddau addas ar gyfer mwyafrif y disgyblion.

Fodd bynnag:

- nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd priodol mewn ysgrifennu estynedig a medrau rhifedd;
- nid yw'r cynllunio ar gyfer dilyniant a pharhad yn y medrau wedi gwreiddio ddigon;
- nid yw'r cynllunio'n ddigon trwyadl i herio'r disgyblion uwch eu gallu ar bob achlysur; ac
- nid yw'r addysgu'n ddigon effeithiol yn y lleiafrif o wersi.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'n dda oherwydd bod:

- y pennaeth a'r staff yn cydweithio'n agos ac yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o berfformiad yr ysgol;
- yr ysgol wedi gweithredu nifer o strategaethau i wella'r ddarpariaeth er mwyn codi safonau disgyblion;
- y llywodraethwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella;
- proses hunanarfarnu briodol sy'n gwneud defnydd da o dystiolaeth gadarn i adnabod blaenoriaethau gwella addas; a
- bod cynllun datblygu'r ysgol yn nodi blaenoriaethau gwella priodol sy'n glir ac ymarferol.

Argymhellion

- A1 Codi safonau ysgrifennu estynedig Cymraeg a Saesneg.
- A2 Codi safonau rhifedd ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2.
- A3 Cynllunio profiadau dysgu sy'n galluogi'r disgyblion mwyaf abl i gyflawni'n unol â'u gallu yn gyson.
- A4 Sicrhau bod safon yr addysgu ar draws yr ysgol yn gyson dda.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Digonol

Safonau: Digonol

Mae llawer o ddisgyblion Ysgol Pentrecelyn yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio'n dda yn ystod sesiynau dysgu, ac yn awyddus i gymryd rhan trwy gynnig atebion. Mae'r disgyblion bron i gyd yn medru cydweithio'n hwylus mewn grwpiau bach neu fesul pâr, ac yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol effeithiol.

Mae medrau llafar Cymraeg y disgyblion bron i gyd yn datblygu'n gadarn iawn. Gallant sgwrsio'n hyderus a rhugl am amrywiaeth o bynciau mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, a hynny o oed cynnar. Mae eu medrau darllen Cymraeg yn datblygu'n dda, ac mae llawer ohonynt yn dangos diddordeb mewn llyfrau, ac yn gallu trafod eu cynnwys yn effeithiol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, maent yn medru dod o hyd i wybodaeth sy'n berthnasol i'w gwaith mewn llyfrau gwybodaeth a thrwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Mae medrau ysgrifennu Cymraeg disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n briodol ar draws y meysydd dysgu. Fodd bynnag, er bod mwyafrif disgyblion cyfnod allweddol 2 yn medru ysgrifennu i safon sy'n briodol i'w hoed a'u gallu, nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd yn ysgrifennu'n estynedig mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Nid yw'r disgyblion uchaf eu gallu'n cyflawni i'r safon sy'n cyfateb i'w potensial bob amser.

Er bod safonau llafar a darllen Saesneg y rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu'n briodol, nid yw safon y gwaith ysgrifenedig yn briodol i'w hoed a'u gallu. Nid ydynt yn ysgrifennu'n estynedig yn Saesneg ar draws y cwricwlwm yn ddigon aml.

Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n dda, a gallant drin rhifau, unedau mesur a gwybodaeth fathemategol arall yn effeithiol. Maent yn cymhwyso'r wybodaeth a'r cysyniadau hyn yn llwyddiannus i ddatrys problemau ymarferol ar draws y meysydd dysgu. Nid yw medrau rhifedd lleiafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu'n briodol. Er bod y mwyafrif yn trin a thrafod rhifau a chysyniadau mathemategol yn llwyddiannus, nid ydynt yn gwneud hynny'n ddigon aml nac yn ddigon effeithiol mewn pynciau ar draws y cwricwlwm.

Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn cymryd balchder yn eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw cyflwyniad gwaith a llawysgrifen lleiafrif o ddisgyblion yn ddigon taclus, ac mae gormod o wallau sillafu yn eu gwaith.

Mae disgyblion yr ysgol bron i gyd yn ymfalchïo yn eu Cymreictod ac yn cymryd rhan frwdfrydig mewn gweithgareddau diwylliannol a chymunedol. Defnyddiant y Gymraeg yn naturiol a hyderus ym mhob sefyllfa. Mae hwn yn un o gryfderau'r ysgol.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd addas yn erbyn eu targedau

Mae nifer y disgyblion sy'n cael eu hasesu ar ddiwedd pob blwyddyn yn isel, ac yn aml yn llai na phump. O ganlyniad, nid yw'n bosibl dod i gasgliadau ystyrlon ar sail data perfformiad yr ysgol.

Mae tuedd gyffredinol i ganlyniadau disgyblion ar y deilliannau a'r lefelau disgwylidig fod yn is wrth gymharu ag ysgolion tebyg ac i raddau ar y lefelau uwch yng nghyfnod allweddol 2.

Lles: Da

Mae'r disgyblion bron i gyd yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae eu hymddygiad yn dda, a dangosant lefelau uchel o barch tuag at ei gilydd ac at oedolion. Mae'r gofal a'r cymorth mae disgyblion hŷn yn ei roi i'r rhai iau yn nodwedd gref.

Dangosa'r disgyblion ymwybyddiaeth dda iawn o faterion cadw a bwyta ac yfed yn iach. Maent yn frwdfrydig wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol sy'n hybu'r agweddau hyn, ac yn ddeallus wrth drafod pwysigrwydd bwyta bwydydd addas a gwneud ymarfer corff.

Bu lefelau presenoldeb yn gyson dda yn ystod y tair blynedd hyd at 2013. Yn 2013, roedd yr ysgol ymhlith y 50% is o ysgolion tebyg. Mae'r disgyblion i gyd yn cyrraedd yr ysgol a'u gwersi yn brydlon.

Mae'r cyngor ysgol yn grŵp brwdfrydig o ddisgyblion sydd wedi cyfrannu'n effeithiol at wella amgylchedd yr ysgol, ac arwain gweithgareddau cymunedol y disgyblion yn effeithiol iawn.

Mae'r ysgol yn cefnogi nifer o elusennau yn lleol a thramor. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth y disgyblion o anghenion eraill a phwysigrwydd cadwraeth natur.

Mae cysylltiadau'r disgyblion â'r gymuned leol yn un o gryfderau'r ysgol. Er enghraifft, maent yn trefnu digwyddiadau cymunedol, fel y cinio Nadolig blynyddol, sy'n cyfoethogi eu perthynas gyda thrigolion yr ardal. Mae'r disgyblion yn elwa'n fawr o'r profiadau hyn ac yn datblygu ystod dda iawn o fedrau cymdeithasol a moesol.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Digonol

Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r athrawon yn darparu cynlluniau gwaith priodol sy'n bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen ac addysg grefyddol. Mae'r cynlluniau gwaith yn sicrhau gweithgareddau addas ar gyfer mwyafrif y disgyblion, ond nid yw'r cynllunio'n ddigon trwyadl i herio'r garfan uwch eu gallu ar bob achlysur.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y medrau yn dechrau derbyn sylw gan yr ysgol ac yn boddhau elfennau o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer dilyniant a pharhad yn y medrau wedi gwreiddio. O ganlyniad, nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd a llythrennedd ar draws y cwricwlwm.

Mae ymweliadau addysgol yn atgyferthu a chyfoethogi'r ddarpariaeth yn llwyddiannus. Mae'r profiadau hyn yn hyrwyddo dealltwriaeth ac yn ysgogi diddordeb y disgyblion yn dda, yn arbennig mewn hanes a diwylliant lleol a chenedlaethol. Mae'r gweithgareddau allgyrsiol fel yr Urdd a chlybiau ar ôl ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn gadarn iawn. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion gymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau yn y gymuned leol, a rhoddir sylw effeithiol i draddodiadau a dathliadau Cymreig er mwyn cyfoethogi profiadau'r disgyblion.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn cael eu hannog drwy waith y cwricwlwm a gweithgarwch y Cyngor Ysgol a'r Cyngor Eco.

Mae'r ysgol yn cynnig profiadau sy'n sicrhau bod gan ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o faterion ailgylchu.

Addysgu: Digonol

Mae perthynas waith dda rhwng athrawon a disgyblion ac mae athrawon yn arwain sesiynau effeithiol a diddorol sy'n cymell disgyblion i ddysgu. Mae cymorthyddion dysgu drwy'r ysgol yn cefnogi athrawon a disgyblion yn effeithiol mewn sesiynau dysgu.

Er bod ystod oed eang o fewn y dosbarthiadau, mae'r athrawon yn sicrhau bod amrywiaeth addas o weithgareddau sy'n herio'r mwyafrif o ddisgyblion o bob gallu yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau yn herio disgyblion mwy abl i gyflawni hyd eithaf eu gallu yn ddigon cyson.

Yn y mwyafrif o wersi, mae athrawon yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer y disgyblion ac yn modelu iaith raenus wrth gyflwyno ac arwain sesiynau dysgu. Maent yn rhoi blaenoriaeth briodol i ddatblygu medrau allweddol llythrennedd a rhifedd y disgyblion. Mae cyflymdra'r gwersi'n dda, ac mae cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymryd rhan weithredol yn eu dysgu. Yn y gwersi hyn, mae'r athrawon yn holi'r plant yn effeithiol mewn dull sy'n eu hannog i roi atebion estynedig.

Yn y lleiafrif o wersi lle nad yw'r addysgu mor effeithiol, nid yw disgwyliadau'r athrawon yn ddigon clir nac yn ddigon uchel. Mae cyflymdra'r gwersi yn araf ac, o ganlyniad, nid yw disgyblion yn llwyddo i gwblhau gweithgareddau neu i gofnodi eu gwaith. Yn y gwersi hyn, mae gormod o bwyslais ar gyflwyniad athro, sy'n llesteirio gallu disgyblion i weithio'n annibynnol.

Mae gan yr ysgol brosesau asesu effeithiol. Mae'r athrawon i gyd yn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o nod bron pob gwers. Maent yn gosod meini prawf llwyddiant ymarferol, ac yn y mwyafrif o wersi maent yn trafod llwyddiant disgyblion yn eu herbyn. Defnyddiant nifer o strategaethau effeithiol i asesu dealltwriaeth disgyblion o gynnwys y sesiynau dysgu, gan annog y disgyblion i fesur eu llwyddiant eu hunain.

Mae'r athrawon yn marcio gwaith ysgrifenedig yn rheolaidd ac mae'r athrawon bron i gyd yn rhoi sylwadau adeiladol ar y rhan fwyaf o waith y disgyblion. Fodd bynnag, prin yw'r enghreifftiau o ddisgyblion yn cael cyfle i wella eu gwaith eu hunain ar ôl derbyn sylwadau gan yr athrawon.

Mae trefniadau olrhain cynnydd clir a phriodol yn eu lle ac mae athrawon yn defnyddio profion safonol ac asesiadau athrawon i fesur ac olrhain cynnydd disgyblion, ac i dargedu cefnogaeth addas yn ôl yr angen.

Mae adroddiadau i rieni yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am safonau a chynnydd disgyblion.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, deuluol a chynhwysol sy'n manteisio'n llawn ar gyfleoedd lleol ac arbenigeddau partneriaid. Mae ganddi drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae gan yr ysgol brosesau effeithiol ar gyfer hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol. Mae staff yr ysgol yn sicrhau bod cyfleoedd cyson i ddisgyblion o bob oed i gydweithio. Caiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar berthynas disgyblion â'i gilydd a chyfle da i ddisgyblion iau yr ysgol ddysgu oddi wrth y rhai hŷn.

Llwydda'r ysgol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol. Mae'r athrawon yn galluogi disgyblion i gymryd rôl flaenllaw yn y gwasanaethau boreol, ac mae bron pob un yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd hyn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o asiantaethau arbenigol ar gyfnodau priodol yn cynnwys therapyddion iaith, seicolegwyr addysg a'r gwasanaethau iechyd. Mae trefniadau'r ysgol yn sicrhau bod pob disgybl yn derbyn y gefnogaeth sydd ei angen.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer adnabod a thracio cynnydd disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol. Mae cynllun datblygu unigol ar gyfer pob disgybl ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol sy'n gosod targedau penodol a mesuradwy. Mae'r athrawon yn eu hadolygu a'u diweddarau yn rheolaidd ac yn trafod yn briodol gyda rhieni.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae yr ysgol yn gymuned groesawgar, hapus a diogel, sy'n annog ymddygiad da ac yn meithrin ethos ofalgar iawn. Mae staff yr ysgol yn gweithio'n effeithiol i sicrhau cydweithrediad, gofal a goddefgarwch rhwng plant ac oedolion a rhwng plant a'i gilydd. Mae'r disgyblion hŷn yn rhoi cymorth da i'r rhai iau a chymorth i'r staff i greu awyrgylch trefnus. Mae hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar ddatblygiad medrau personol a chymdeithasol y disgyblion.

Mae adeiladau'r ysgol yn cael eu cynnal a'u cadw i safon briodol ac mae'r safle'n raenus a thacclus. Mae ardaloedd allanol yr ysgol yn annog y disgyblion i werthfawrogi cadw'n iach a gwarchod yr amgylchedd o'u cwmpas. Mae ardal allanol y Cyfnod Sylfaen wedi ei threfnu'n effeithiol, ac mae gardd yr ysgol yn fodd i ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o blanhigion a garddwriaeth.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mewn cyfnod byr, mae'r pennaeth gweithredol wedi llwyddo i adnabod yr ysgol yn dda a chydweithio'n llwyddiannus gyda staff a llywodraethwyr. Mae ganddi ffocws clir ar godi safonau a gwella'r ddarpariaeth ar draws yr ysgol yn enwedig mewn mathemateg a Saesneg. Mae'r cydweithio agos wedi sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn o berfformiad yr ysgol. Gyda'i gilydd, maent yn dadansoddi data ac asesu disgyblion yn effeithiol er mwyn targedu darpariaeth yn briodol.

Mae staff yr ysgol wedi gweithredu nifer o strategaethau i wella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion er mwyn codi safonau, ond megis dechrau gweithredu rhaglen i wella ysgrifennu disgyblion. Mae'r strategaethau asesu ar gyfer dysgu, a'r dull o drefnu gwaith i ateb anghenion dysgu disgyblion, eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ar yr addysgu ac yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau cyrhaeddiad y disgyblion.

Mae'r arweinwyr yn talu sylw effeithiol i flaenoriaethau cenedlaethol. Er enghraifft, mae'r athrawon yn mireinio'u cynllunio mewn ymateb i ofynion y fframwaith llythrennedd a rhifedd.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn ac yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol. Maent yn dadansoddi ystod o ddata perfformiad yn ddeallus ac mae eu dealltwriaeth o sut mae'r ysgol yn perfformio o'i chymharu ag ysgolion tebyg yn dda. Mae aelodau o'r corff yn ymweld â'r ysgol yn gyson er mwyn arsylwi mewn dosbarthiadau a chraffu ar lyfrau, ac yn herio'r ysgol yn briodol.

Gwella ansawdd: Da

Mae proses hunanarfarnu gadarn gan yr ysgol. Mae'r pennaeth a'r athrawon yn gwneud defnydd da o ddata cenedlaethol fel tystiolaeth i'w helpu i adnabod blaenoriaethau gwella addas. Mae'r broses hefyd yn cynnwys ymweliadau gwersi ac archwiliadau craffu ar lyfrau i fonitro'r dysgu a'r addysgu gan y pennaeth, staff,

Ilywodraethwyr a'r awdurdod addysg lleol. Mae'r ysgol hefyd yn gwneud defnydd priodol o holiaduron i gasglu safbwyntiau disgyblion a rhieni ac yn ymateb yn dda iddynt. Er enghraifft, o ganlyniad i ddadansoddiadau deilliannau holiaduron, mae'r ysgol yn dosbarthu cylchlythyr wythnosol i rieni er mwyn rhannu gwybodaeth.

#

Mae rhaglen fonitro'r ysgol yn dilyn amserlen bendant sy'n canolbwyntio'n glir ar yr angen i wella ansawdd dros gyfnod o amser. Nodwedd dda o'r rhaglen hon yw bod athrawon yn cael cyfle i arsylwi ar wersi ei gilydd, a'r canfyddiadau yn ffynhonnell wybodaeth fuddiol ar gyfer gwella addysgu. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi llwyddo i ddatblygu ethos hunanfeiriadol agored a chytbwys.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn ddogfen effeithiol sy'n cynnig sylwadau arfarnol ar ystod briodol o agweddau ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'n cynnwys dadansoddiadau manwl o ddata perfformiad, ac yn nodi blaenoriaethau addas i'w cynnwys yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae'r cynllun datblygu'n cynnwys nifer briodol o flaenoriaethau i weithredu arnynt. Mae'r camau gweithredu yn glir, ac yn nodi cyfrifoldebau a chostau yn benodol.

Mae'r cynllun datblygu yn cael sylw cyson mewn cyfarfodydd wythnosol y staff a chyfarfodydd y llywodraethwyr ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn monitro'r cynnydd tuag at gyflawni'r targedau.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r bartneriaeth sydd yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni yn dda. Mae polisi 'drws agored' sy'n hwyluso cyfleoedd i rieni drafod cynnydd eu plant ac unrhyw bryderon. Mae rhieni hefyd yn gwirfoddoli'n rheolaidd i gefnogi gwaith yr ysgol, er enghraifft cydweithio i arwain clwb ar ôl ysgol, tacluso'r ardd a chynorthwyo mewn sesiynau darllen.

Mae'r ysgol yn rhan bwysig o'r gymuned, ac mae perthynas gref rhyngddynt. Yn ogystal â chynnal gwasanaethau tymhorol yn yr eglwys a'r capel, mae'r ysgol yn croesawu aelodau o'r gymuned i ymuno â disgyblion a staff yr ysgol ar rai achlysuron, er enghraifft i gael cinio adeg y Nadolig. Manteisiodd yr ysgol ar ddathliadau penblwydd yr ysgol yn 140 oed yn ddiweddar i gryfhau'r berthynas â'r gymuned, wrth gydweithio i greu arddangosfa o linell amser barhaol o hanes yr ysgol.

Mae partneriaeth dda â'r awdurdod lleol ac mae'r ysgol wedi manteisio ar arbenigedd proffesiynol staff yr awdurdod mewn nifer o feysydd.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion cynradd y dalgylch. Maent yn cymedroli gwaith disgyblion yn effeithiol a chreu portffolios priodol o ddisgwyliadau lefel. Mae hyn wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar allu athrawon i asesu a lefelu gwaith disgyblion yn gywir.

Mae perthynas dda rhwng yr ysgol ag ysgol uwchradd leol, sydd wedi arwain at drefniadau pontio effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n esmwyth i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Rheoli adnoddau: Digonol

Mae lefelau staffio'r ysgol yn briodol, ac mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn meddu ar ystod briodol o brofiad a medrau. Mae'r pennaeth yn trefnu'r amserlen yn effeithiol, gan gynnwys amser cynllunio, paratoi ac asesu. Mae trefniadau rheoli perfformiad athrawon yn gadarn, ac yn gosod amcanion gwella priodol.

Mae'r gan yr ysgol ystod addas o adnoddau, ac mae athrawon yn eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi buddsoddi mewn offer pwrpasol i gyfoethogi'r ardal allanol yn y Cyfnod Sylfaen a chyfrifiaduron llechen i wella medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau ar gyfer codi safonau a lles y disgyblion. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro a rheoli'r gyllideb yn effeithiol.

O ystyried deilliannau disgyblion a safon y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

6632168 - Ysgol Pentrecelyn

Nifer y disgyblion ar y gofrestr	42
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd Grŵp PYD	5.3
	1 (PYD<=8%)

Cyfnod Sylfaen

	2012	2013	2014
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2	6	*	6
Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)	66.7	*	83.3
Chwarter meincnod	4	*	4
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)			
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)			
Nifer y disgyblion yng ngharfan	6	*	6
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	66.7	*	83.3
Chwarter meincnod	4	*	4
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	33.3	*	50.0
Chwarter meincnod	2	*	1
Datblygiad mathemategol (MDT)			
Nifer y disgyblion yng ngharfan	6	*	6
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	83.3	*	83.3
Chwarter meincnod	4	*	4
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	33.3	*	33.3
Chwarter meincnod	2	*	3
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)			
Nifer y disgyblion yng ngharfan	6	*	6
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	100.0	*	100.0
Chwarter meincnod	1	*	1
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	33.3	*	66.7
Chwarter meincnod	3	*	2

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o'r blynyddoedd o ddata perfformiad Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer yr ysgol hon. Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym>

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	17	17 100%	0 0%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	16	15 94%	1 6%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	17	16 94%	1 6%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	17	17 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		97%	3%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	17	16 94%	1 6%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	17	17 100%	0 0%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	17	17 100%	0 0%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	17	17 100%	0 0%	Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	17	15 88%	2 12%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		91%	9%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	17	16 94%	1 6%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	17	15 88%	2 12%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		77%	23%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	17	17 100%	0 0%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	20	10 50%	9 45%	1 5%	0 0%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		63%	33%	3%	1%		
My child likes this school.	20	14 70%	6 30%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		73%	25%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	19	14 74%	3 16%	0 0%	0 0%	2	Cafodd fy mhentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		72%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	20	11 55%	9 45%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		61%	34%	3%	1%		
Pupils behave well in school.	19	11 58%	5 26%	1 5%	0 0%	2	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		45%	45%	4%	1%		
Teaching is good.	20	11 55%	7 35%	2 10%	0 0%	0	Mae'r addysgu yn dda.
		60%	35%	2%	0%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	20	12 60%	7 35%	0 0%	0 0%	1	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		63%	33%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	20	10 50%	7 35%	0 0%	0 0%	3	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		47%	40%	6%	1%		
Staff treat all children fairly and with respect.	20	11 55%	9 45%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		58%	33%	4%	1%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	20	12 60%	8 40%	0 0%	0 0%	0	Caiff fy mhentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		59%	36%	2%	0%		
My child is safe at school.	20	15 75%	5 25%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		66%	31%	1%	0%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	18	8 44%	7 39%	0 0%	0 0%	3	Mae fy mhentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		50%	34%	4%	1%		
I am kept well informed about my child's progress.	19	8 42%	9 47%	1 5%	0 0%	1	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhentyn.
		49%	40%	8%	2%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	20	15 75%	4 20%	1 5%	0 0%	0	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		62%	31%	4%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	20	7 35%	8 40%	1 5%	0 0%	4	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		45%	39%	7%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	20	10 50%	9 45%	0 0%	0 0%	1	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		56%	38%	2%	0%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	19	8 42%	7 37%	1 5%	0 0%	3	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		42%	33%	4%	1%		
There is a good range of activities including trips or visits.	20	12 60%	8 40%	0 0%	0 0%	0	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		53%	38%	5%	1%		
The school is well run.	20	12 60%	7 35%	1 5%	0 0%	0	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		61%	32%	3%	1%		

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Terwyn Tomos	Arolygydd Cofnodol
Gwenda Easton	Arolygydd Tîm
David Jenkins	Arolygydd Lleyg
Owain Roberts	Arolygydd Cymheiriaid
Teresa Wynne	Enwebai

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeiliant 1 i ddeiliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deiliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deiliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deiliant disgwylidig (deiliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.